# Y Pierhead

Mae'r Pierhead yn lle y gellir ymweld ag ef yn rhad ac am ddim.  Mae ar agor rhwng 10.30 a 16.30.

Gall fod yn brysur ac yn swnllyd, yn enwedig os oes digwyddiad yn cael ei gynnal yno. Wrth ichi fynd i mewn i ystafelloedd gwahanol, efallai y bydd newidiadau yn lefel y golau, o dywyllwch i oleuni neu o oleuni i dywyllwch.

Os ydych yn bwriadu ymweld â'r Pierhead gallwch gysylltu ymlaen llaw i gael gwybod beth sy'n digwydd yn yr adeilad – gellir cysylltu â'n Llinell Wybodaeth ar 0300 200 6565.

## Y Brif Fynedfa

Dyma'r brif fynedfa. Mae derbynfa gyda system ddolen ar gyfer pobl fyddar. Efallai y gwelwch swyddogion diogelwch neu'r heddlu ond nid oes system ddiogelwch i fynd drwyddi. Gallwch holi yn y dderbynfa am yr adeilad ac a oes unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu cynnal.

## Ystafell y Docfeistr

Mae hon yn ystafell fach a gall fod yn brysur yma. Gallwch gyffwrdd unrhyw un o'r arddangosfeydd yn yr ystafell hon. Gellir chwarae ffilm ac mae'r sain yn uchel.

## Y Neuadd Fawr

Gall yr ystafell hon fod yn swnllyd a phrysur iawn. Gall hefyd fod yn llachar iawn yma. Pan fydd y llenni wedi'u cau gall yr ystafell fod yn dywyll iawn.  Gallwch gerdded o amgylch ac eistedd yn unrhyw le yn yr ystafell. Caiff ffilm ei chwarae ar y llenni. Mae hyn yn digwydd yn awtomatig ar yr awr ac wedyn bob ugain munud. Gall y sain fod yn uchel. Os oes digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr ystafell, efallai na chewch fynd i mewn. Mae toiledau dynion, merched ac anabl yng nghefn yr ystafell lle mae sychwyr dwylo swnllyd. Mae'r lifft i'r lloriau eraill yn yr ystafell hon.

# I fyny'r grisiau

## Parlwr y Pierhead

Mae eitemau'n cael eu harddangos yn y tair ystafell hyn. Dylech fod yn ofalus wrth edrych i mewn i'r cypyrddau gwydr rhag ofn ichi daro eich pen yn erbyn y gwydr. Gallwch gyffwrdd unrhyw eitemau nad ydynt y tu ôl i'r gwydr. Efallai y bydd trac sain yn cael ei chwarae i gyd-fynd â'r arddangosfeydd.

## Oriel y Dyfodol

Mae dwy ystafell yma. Mae cadair yn yr ystafell gyntaf na chaniateir ichi eistedd arni, ynghyd â chwpwrdd gwydr felly dylech fod yn ofalus wrth edrych i mewn iddo. Mae gwaith celf na chaniateir ichi ei gyffwrdd yn cael ei arddangos yn yr ail ystafell. Hefyd mae sgrin lle gallwch deipio neges. Mae'r neges yn ymddangos mewn dotiau coch a fydd wedyn yn teithio ar gyflymder o amgylch y ddolen.

## Toiledau

Mae toiledau dynion a merched i fyny'r grisiau gyda sychwyr dwylo swnllyd. Nid oes toiled i'r anabl.

## Ystafelloedd Seminar

Ni allwch fynd i mewn i'r ystafelloedd hyn oni bai eich bod gydag aelod o staff.

## Larwm Tân

Mae hwn yn swnllyd iawn. Os bydd y larwm yn canu, bydd aelod o staff yn dweud wrthych ble i fynd.

## Man tawel

Os oes angen man tawel arnoch, gallwch ofyn i aelod o staff y dderbynfa am rywle i fynd.